**Teitl: Crefydd a Gwleidyddiaeth**

| **Teitlau** | **Dylanwad Crefydd ar Wleidyddiaeth UDA** | **Y Senedd** | **Crefydd a Gwleidyddiaeth** |
|---|---|---|---|
| **Rhesymeg** | **YMWADIAD:** Mae'r Nodiadau i Athrawon wedi'u diweddaru er mwyn gallu defnyddio'r adnodd drwy Gwricwlwm i Gymru. Wedi dweud hynny, mae cynnwys yr erthyglau wedi'i archifo ac nid yw'r wybodaeth wedi'i diweddaru. Mae'r erthyglau yn cael eu cadw ar y wefan gan fod y cynnwys yn parhau i fod yn berthnasol i Gwricwlwm i Gymru: Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.<br><br>**Pedwar diben 'Cwricwlwm i Gymru - Cwricwlwm am Oes'**<br>**Drwy ddysgu am Grefydd a Gwleidyddiaeth fel rhan o'u gwersi addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, bydd cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu yn:**<br>• Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n gallu egluro'r syniadau a'r cysyniadau maen nhw'n eu dysgu;<br>• Unigolion iach a hyderus sydd â gwerthoedd cadarn ac sy'n sefydlu eu credoau ysbrydol a moesol;<br>• Cyfranogwyr mentrus, creadigol sy'n rhoi o'u hegni a'u sgiliau er budd pobl eraill;<br>• Dinasyddion moesol, dysgedig a fydd yn ymgysylltu â materion cyfoes yn seiliedig ar eu gwybodaeth a'u gwerthoedd.<br><br>**Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y Cwricwlwm i Gymru**<br>Drwy ddarllen a defnyddio'r erthyglau yn eu gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, caiff dysgwyr gyfleoedd i:<br><br>• Ymgysylltu â chwestiynau athronyddol a thyngedfennol, a'u harchwilio<br>• Ymgymryd ag ymholiadau ac ymgysylltu â ffynonellau o ddoethineb ac athroniaethau<br>• Datblygu a mynegi eu safbwyntiau dysgedig eu hunain<br>• Defnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth am safbwyntiau byd-eang crefyddol a heb fod yn grefyddol i feddwl yn feirniadol am eu gwerthoedd eu hunain<br>• Archwilio'r ffyrdd mae argyhoeddiadau athronyddol crefyddol a heb fod yn grefyddol wedi dylanwadu ar brofiad dynol drwy gydol hanes<br>• Gwerthuso amrywiaeth o ffynonellau crefyddol a heb fod yn grefyddol a defnyddio tystiolaeth ohonynt i ymgysylltu â materion moesegol a moesol<br>• Archwilio credoau ac arferion pobl yn eu cymuned, yng Nghymru ac yn y byd ehangach ac ymateb yn sensitif iddynt<br>• Datblygu gwerthoedd cadarn a sefydlu eu credoau moesol a'u hysbrydolrwydd | | |

| Teitlau | Dylanwad Crefydd ar Wleidyddiaeth UDA | Y Senedd | Crefydd a Gwleidyddiaeth |
|---|---|---|---|
| | • Trafod eu persbectifau eu hunain a phersbectifau eraill, a myfyrio arnynt<br>**Y lens Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg**<br>Drwy ddarllen a defnyddio'r erthyglau yn eu gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, caiff dysgwyr gyfleoedd i archwilio amrywiaeth o gysyniadau yn ymwneud â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg drwy'r **is-lensys isod:**<br>• Chwilio am ystyr a diben;<br>• Y byd naturiol a phethau byw;<br>• Hunaniaeth a pherthyn;<br>• Awdurdod a dylanwad;<br>• Perthnasoedd a chyfrifoldeb;<br>• Gwerthoedd a moeseg;<br>• Taith bywyd;<br><br>*Noder bod Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn cael eu pennu'n lleol drwy faes llafur cytunedig. Mae gan bob awdurdod lleol ei faes llafur cytunedig ei hun ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y mae'n rhaid i ysgolion ei ystyried. Mae pob maes llafur sydd wedi'i gytuno wedi ystyried fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a chanllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y cyfeirir atynt uchod ac isod.<br><br>**Dolenni Defnyddiol:**<br><br>**Canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/designing-your-curriculum/#religion,-values-and-ethics-guidance**<br>**Canllawiau Dyniaethau Hwb - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities**<br>**Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/statements-of-what-matters/**<br>**Themâu Trawsgwricwlaidd - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/designing-your-curriculum/#cross-cutting-themes** | | |

| Teitlau | Dylanwad Crefydd ar Wleidyddiaeth UDA | Y Senedd | Crefydd a Gwleidyddiaeth |
|---|---|---|---|
| **Geirfa allweddol** | Anffyddiwr – person sydd ddim yn credu fod Duw yn bodoli.<br><br>Protestaniaid – traddodiadau Cristnogol niferus a dyfodd o'r bymthegfed ganrif ymlaen.<br><br>Catholigion – Cristnogion sy'n perthyn i Eglwys Gatholig Rhufain ac sy'n dilyn arweiniad y Pab.<br><br>Efengylwyr – Cristnogion sy'n dilyn y Beibl air am air; grŵp niferus iawn yn Unol Daleithiau America a rhai gwledydd eraill.<br><br>Piwritaniaid – Cristnogion a sefydlodd UDA er mwyn sicrhau rhyddid crefyddol.<br><br>'Bible Belt' – casgliad o daleithiau UDA sy'n cael eu hystyried yn grefyddol a cheidwadol. | Cytûn - grŵp o eglwysi amrywiol sy'n cydweithio â'i gilydd yn genedlaethol ac yn lleol. *Churches Together in Wales.*<br><br>Gweddus - mewn ffordd dderbyniol neu barchus. *Seemly.*<br><br>Galwad - mae rhai pobl yn teimlo bod Duw yn eu 'galw' i wneud gwaith arbennig e.e. mae rhai yn teimlo galwad i fod yn weinidog/doctor/athro. *Calling, vocation.*<br><br>Caplaniaethau - lle mae gweinidog neu berson lleyg yn cynrychioli ffydd neu sefydliad ffydd yn gweithio mewn man gwaith e.e. ysgol, carchar, maes awyr, coleg gan gynnig help ysbrydol. *Chaplaincy.*<br><br>Pregethwr lleyg - person (heb ei ordeinio fel gweinidog neu offeiriad) sy'n mynd o gwmpas capeli/eglwysi ar y Sul i arwain oedfa a rhoi neges sy'n seiliedig ar y Beibl. *Lay preacher.*<br><br>Heriol - yn rhoi sialens. *Challenging.*<br><br>Trawsbleidiol - rhywbeth sy'n cynnwys gwahanol bleidiau gwleidyddol nid dim ond un. *Cross-party.*<br><br>Erthylu - gwaredu babi pan yn y groth. *Abort.*<br><br>Arddel - cefnogi neu ddal safbwynt arbennig. *To espouse/to hold.*<br><br>Dyneiddwyr: pobl sydd yn credu nad oes angen | Albert Einstein – un o'r Ffisegwyr mwyaf erioed oedd yn gyfrifol am hollti'r atom.<br>Senedd – y corff sy'n gyfrifol am wneud deddfau newydd.<br>Archesgob – esgob o'r radd uchaf.<br>Esgob - aelod uwch o'r clerigwyr Cristnogol, fel arfer â gofal esgobaeth a'r hawl i gyflwyno urddau sanctaidd.<br>Tŷ'r Arglwyddi - Tŷ'r Arglwyddi yw ail siambr Senedd Prydain. Mae'n annibynnol, ac yn ategu Gwaith Tŷ'r Cyffredin.<br>Ayatollah - arweinydd crefyddol uchel ei statws ymhlith Mwslimiaid Shia, yn enwedig yn Iran.<br>Theocratiaeth - system lywodraethu lle mae crefyddwyr yn llywodraethu yn enw Duw neu Dduw.<br>Fatican - dinas-wladwriaeth wedi'i hamgylchynu gan Rufain, yr Eidal, yw pencadlys yr Eglwys Babyddol.<br>Dietrich Bonhoeffer – Gweinidog Lutheraidd Almaenaidd oedd yn gwrthwynebu Hitler.<br>Flossenburg - gwersyll crynhoi Natsïaid a adeiladwyd ym mis Mai 1938.<br>Natsïaid - y syniadau a'r arferion sy'n gysylltiedig ag Adolf Hitler a'r Blaid Natsïaidd.<br>Muhammad Ali - Bocsiwr proffesiynol Americanaidd.<br>Rhyfel Fietnam - gwrthdaro yn Fietnam, Laos, a Cambodia rhwng 1 Tachwedd, 1955 a chwymp Saigon ar 30 Ebrill, 1975.<br>Martin Luther King - gweinidog Americanaidd |

| Teitlau | Dylanwad Crefydd ar Wleidyddiaeth UDA | Y Senedd | Crefydd a Gwleidyddiaeth |
|---|---|---|---|
| | | dilyn Duw neu grefydd mewn bywyd. *Humanists*. | Affricanaidd gyda'r Bedyddwyr a ddaeth yn llefarydd ac arweinydd mwyaf gweladwy'r mudiad hawliau sifil o 1955 hyd at ei lofruddio ym 1968.<br>Mohandas Gandhi - Cyfreithiwr Indiaidd a chenedlaetholwr a ddefnyddiodd wrthwynebiad di-drais i arwain yr ymgyrch lwyddiannus dros annibyniaeth India rhag rheolaeth Prydain, ac yn ei dro ysbrydolodd symudiadau dros hawliau sifil a rhyddid ledled y byd.<br>Dalai Lama – Arweinydd ysbrydol pobl Tibet.<br>Wang Yi - yw gweinidog yr Early Rain Covenant Church yn Chengdu. |
| **Geiriau chwilio** | Anffyddiwr<br>Efengylwyr<br>Catholigion<br>Protestaniaid<br>Ceidwadol<br>Rhyddfrydol | Senedd<br><br>Cytûn<br><br>Darren Millar<br><br>Dai Lloyd<br><br>Eluned Morgan<br><br>Gwleidyddiaeth<br><br>Gweddi | Crefydd<br>Gwleidyddiaeth<br>Ffrindiau<br>Gelynion<br>Einstein<br>Prydain<br>Archesgob<br>Esgob<br>Iran<br>Fatican<br>Ayatollah<br>Islam<br>Mwslimaidd<br>Bocsio<br>Fietnam<br>Bwdhaeth<br>Tibet |

| Teitlau | Dylanwad Crefydd ar Wleidyddiaeth UDA | Y Senedd | Crefydd a Gwleidyddiaeth |
|---|---|---|---|
| | | | China<br>Gogledd Korea<br>Erlid |
| **Tasgau dosbarth** | Tasgau estynedig sy'n gofyn i'r disgyblion i ddefnyddio'r 3 erthygl, cyfeirio at gredoau/dysgeidiaethau ac arferion crefyddol wrth ymateb i gwestiynau sylfaenol/crefyddol. | | |
| **Tasgau ymestynnol** | 1. Casglwch wybodaeth am y gwahanol grwpiau crefyddol yn America heddiw. Byddai'n bosib sôn am Brotestaniaid, Efengylwyr, Catholigion, Mormoniaid, Iddewon, Mwslimiaid ac eraill. Beth am gyflwyno paragraffau gwybodaeth, ystadegau, siartiau, graffiau ac ati?<br>2. Pa mor gryf yw dylanwad gwleidyddol gwahanol grwpiau crefyddol yn America heddiw? Sut wnaeth hyn ddylanwadu ar ganlyniad etholiad 2020?<br>3. I raddau roedd Donald Trump yn gweld ei hun fel un wedi ei **'ddewis'** i arwain Unol Daleithiau America. A oedd hyn yn beth da neu ddrwg yn y tymor hir?<br>4. Mae rhai crefyddwyr yn gweld America fel gwlad wedi cael ei dewis gan Dduw. Cofiwch y geiriau 'Make America Great Again' a 'Let's Make | 1. Mae Senedd Cymru wedi mentro i dir newydd wrth adael i bobl ifanc 16 oed bleidleisio yn yr etholiadau i'r Senedd a gynhelir ym mis Mai 2021. Faint ydych chi'n ei wybod am y Senedd a'r gwaith a wneir gan Aelodau Senedd Cymru? Beth am brofi eich gwybodaeth wrth fynd ar wefan a gwylio'r fideos gwybodaeth<br>https://senedd.cymru/pleidlais16 a chymryd rhan yn y cwisiau wrth glicio ar Kahoot? https://create.kahoot.it/share/cwis-ein-senedd-ni/3ebd0798-317e-4d80-af17-4db1e2312e30<br>2. Mae Senedd Cymru wedi bod yn trafod Cwricwlwm newydd ar gyfer ysgolion Cymru, ac mae lle Addysg Grefyddol mewn ysgolion wedi cael llawer o sylw. Beth ydy manteision cyflwyno ffydd a gwahanol grefyddau neu ddaliadau fel dyneiddiaeth i ddisgyblion ysgol yn eich barn chi? Gwnewch restr o'r manteision a thrafodwch eich pwyntiau gyda disgybl | 1. Ymchwiliwch ymhellach i hanes pobl mewn unrhyw wlad sy'n herio gwleidyddiaeth llywodraeth y wlad honno ar sail eu credoau crefyddol. Lluniwch gyflwyniad i weddill y dosbarth.<br>2. Cynhaliwch drafodaeth dosbarth ar y testun – 'Dylai crediniwr crefyddol roi ei gydwybod grefyddol o flaen pob dim arall.'<br>3. Ysgrifennwch erthygl yn rhoi eich barn chi ar y cwestiwn ai cymdeithas sy'n creu pobl neu bobl sy'n creu cymdeithas.<br>4. Lluniwch flog o safbwynt rhywun sydd wedi herio llywodraeth ar sail credoau crefyddol gan geisio egluro'r rhesymau dros wneud hynny a'r gost bersonol/teuluol/cymdeithasol. Ceisiwch hefyd feddwl am y cwestiynau y byddai'r unigolion wedi eu gofyn |

| Teitlau | Dylanwad Crefydd ar Wleidyddiaeth UDA | Y Senedd | Crefydd a Gwleidyddiaeth |
|---|---|---|---|
| | America Godly Again'. I ba raddau mae hynny'n beth da neu ddrwg? Ceisiwch wneud pwyntiau bwled ar y ddwy ochr.<br><br>5. Beth yw rhai o brif syniadau'r asgell dde Gristnogol yn UDA? Gellir cyfeirio at eu barn ar:<br><br>• Erthyliad;<br>• Priodas;<br>• Bywyd teuluol;<br>• Gwlad Israel;<br>• Dyfodol America. | arall.<br><br>3. Mae llawer o ddeisebau yn cael eu cyflwyno i Senedd Cymru wrth i bobl geisio gwella'r wlad a sefyllfa pobl yng Nghymru. Pe byddech chi'n cael cyfle i gyflwyno deiseb, am beth fyddai'r ddeiseb yn gofyn? Ydy'r hyn mae gwahanol grefyddau yn ei ddysgu yn gwneud i chi feddwl am un pwnc yn arbennig? Rhowch enghraifft ac eglurwch pa ddysgeidiaeth sydd wedi'ch arwain i benderfynu ar destun y ddeiseb. Lluniwch eiriad y ddeiseb.<br><br>4. Ydych chi'n credu y dylai fod cyfnod o weddi/myfyrdod ar ddechrau sesiynau busnes Senedd Cymru? Trafodwch hyn yn y dosbarth.<br><br>5. Mae Dai Lloyd, Darren Millar ac Eluned Morgan yn agored am eu ffydd. Os yw gwleidydd yn arddel ffydd arbennig, neu'n dal safbwyntiau dyneiddiaeth er enghraifft, ydych chi'n credu y dylai fod angen datgan hynny'n gyhoeddus? A ddylai hyn fod yn orfodol? Trafodwch hyn yn y dosbarth | iddyn nhw eu hunain.<br><br>5. A oes lle i grefydd mewn gwleidyddiaeth neu wleidyddiaeth mewn crefydd. Trafodwch. |

| Teitlau | Dylanwad Crefydd ar Wleidyddiaeth UDA | Y Senedd | Crefydd a Gwleidyddiaeth |
|---|---|---|---|
| | | 6. Ceisiwch gredu darlun geiriol o berson/gwleidydd y byddech chi'n barod i bleidleisio drosto/drosti. Nodwch beth fyddai'n eich denu i fwrw eich pleidlais drosto/drosti e.e.<br><br>Profiad o weithio yn y gymuned<br><br>Y gallu i wrando a rhoi amser i bobl<br><br>Gwên..........<br><br>Fyddai ffydd yn ymddangos ar eich rhestr? (dim ots pa grefydd). | |
| **Adnoddau pellach** | | | |